

# Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Sir Conwy

Ebrill 2009 –

Mawrth 2010

# Cynnwys

## Rhagair

- Aelodau Pwyllgor
- Aelodau Staff
- Pwyllgorau Ardal
- Strwythur Rheoli a Staffio Menter Iaith Conwy
- Cyllid
- Cynlluniau Gwireddu Strategaeth
  1. Busnes
  2. Gwirfoddol
  3. Sector cyhoeddus
  4. Plant a Phobl Ifanc
  5. Gweithgareddau Cymdeithasol
  6. Dysgwyr
  7. Marchnata
  8. Cynlluniau Penodol
  9. Mentrau Iaith Cymru

## I Gloi

# Rhagair

Hyderwn y bydd yr adroddiad hwn yn cyfleu darlun o waith a chyfeiriad cyffredinol Menter Iaith Conwy. Ei llwyddiannau, rhwystrau ac methiannau. Ceir cofnod manylach o waith y fenter yn ein hadroddiadau chwarterol.

Nodwyd yn ein adroddiad diwethaf ein bod wedi bod yn llwyddiannus efo 5 cais i'r "**Cynllun Datblygu Wledig**". Arian Ewropeaidd yw hwn sydd ar gael trwy'r Cynulliad a'r Cyngor Sir i ddatblygu cynlluniau o fewn ardaloedd gwledig. Roedd yr arian wedi ei clystnodi ar gyfer 3 mlynedd felly hwn fydd yr ail flwyddyn iddo fod yn weithredol.

Bu rhaglen gyson o weithgareddau ar draws rhan helaeth o'r Sir, nifer wedi eu cynllunio gan y Pwyllgorau Ardal. Mae cofnod manwl o'r rhaglen yma ar gael.

Mae rhai o'n cynlluniau penodol megis Cyfieithu Cymunedol, Yr Hen Ysgol a'r Asiantaeth Awyr Agored hefyd wedi gweld cynydd syddweddol.

## Aelodau Pwyllgor Ebrill 2009 – Mawrth 2010.

Cynhaliwyd Gyfarfod Blyneddol Menter Iaith Conwy yn Adeilad Menter Iaith, Llanrwst ar y 18fed o Ebrill. Etholwyd Gwyn Roberts fel Cadeirydd.

Cadeirydd – Gwyn Roberts

Trysorydd – Arfon W

Ysgrifennydd – Teleri Hughes - Staff

Baudewijn Morgan - Dysgwyr

Eirian Jones - Gwirfoddol

Eleri Evans – Materion Staffio

Wyn Jones – Materion Staffio

Tecwyn Ifan – Heb Bortffolio

Huw Prys – Heb Bortffolio

Eryl P – Ardal Gwledig

Meirion Davies – Staff

# Aelodau Staff

Ebrill 2009 – Mawrth 2010

Cyfarwyddwr Datblygu – Meirion Davies

Swyddog Cyllid – Teleri Hughes

Swyddog Arfordirol – Elliw Glyn Griffiths hyd 20/12/09, Manon Celyn yn olynu.

Swyddog Gwledig - Bedwyr ap Gwyn

Swyddog Treftadaeth - Siân Emlyn hyd Fehefin 2009, Esyllt Tudur yn olynu.

Swyddog yr Hen Ysgol - Eirian Jones

Iwan Glyn – Swyddog Datblygu Mentrau Iaith Cymru

## **Cyfieithu Cymunedol**

Prif Gyfieithydd - Gwenllïan Glyn hyd Hydref 09, Glyn Jones yn olynu

Mentor – Dafydd Chilton

Dan Hyfforddiant – Glyn Jones hyd Ebrill, Megan Jones a Ffion Wynne yn olynu

## **Pwyllgorau Ardal**

Sefydlwyd 2 Bwyllgor Ardal Newydd

Cyfansoddwyd Pwyllgor Ardal Uwch Aled ac Abergele, mae'r 2 wedi llwyddo i ddenu adnoddau ariannol. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn ar bwyllgor yn ardal Penmachno

### **Arfordirol**

- 1) Penmaenmawr a Llanfairfechan, sef Pen-lan
- 2) Llandudno a'r Cylch, sef Y Creuddyn
- 3) Abergele

### **Gwledig**

- 4) Rhwng Dyffryn Conwy a Chlwyd, sef Y Berfeddwlad
- 5) Dolwyddelan (anffurfiol)
- 6) Llanrwst
- 7) Cerrigydrudion

Cynllun Ardal Bwrdd yr Iaith.


Erbyn rŵan mae'r cynllun wedi cael ei fabwysiadu gan Swyddog Treftadaeth Ardal Wledig ac yn rhan o rwydwaith pwyllgorau Ardal Menter Iaith Conwy.

### **Strwythur Staff a Phwyllgorau**

Fel canlyniad i lwyddiant ceisiadau CD golygai hyn roedd 3 swydd newydd uniongyrchol ac 1 aniongyrchol. Ynghyd a chynnydd mewn adnoddau cyllidol.

Rydym hefyd wedi pennu Pwyllgorau Staffio a Chyllid penodol oherwydd y cynnydd mewn staff a chyllid. Penodwyd cwmni Peninsula i'n cynorthwyo i'r diben yma

# Strwythur Rheoli a Staffio Menter Iaith Conwy (MHIC)



# Cyllid 10 – 11

£83,000 Bwrdd yr Iaith Gymraeg

£73,000 Cynllun Datblygu Wledig (manylion isod)

£50,000 Trosiant Cyfieithu Cymunedol Conwy

£27,000 CAE (Parc Eryri) – Swyddog Ardal Wledig

£22,000 Cronfa Datblygu Gymdeithasol Cyngor Sir Conwy. Cynllun yr Hen Ysgol

£5,000 Arian i Bawb, Cynllun Gemau Buarth storion Digidol

£5,000 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Adran Prif Weithredwr Cyngor Sir Conwy

£4,000 Cytundeb Lefel Gwasanaeth Adran Addysg Cyngor Sir Conwy

£5,000 Cyngor y Celfyddydau, gweithdai celfyddydol.

£1,000 Adran Celf Cyngor Conwy, Llanast Llanrwst.

£1,000 Cynllun Ardal Llanrwst, Llanast Llanrwst.

£1,000 Cist Gymunedol Conwy (Sportslot) Hyfforddi Syrffio

£500 Cyngor y Celfyddydau, Llanast Llanrwst

£500 Busnesau Tref Llanrwst, Llanast Llanrwst.

Ceir manylion llawn ein cyllideb yn y Cyfrifon Blynyddol

Cronfeydd Cynllun Datblygu Wledig

- 1) Gwersi Cymraeg i niferoedd bychain. Yn aml ni all dysgwyr fynychu cyrsiau wedi gwersi blwyddyn 1 mewn ardaloedd gwledig am nad oes yno ddigon o niferoedd i redeg y cwrs. Bydd modd i grwpiau bychain ymrwymedig dderbyn hyfforddiant dwys er mwyn dod yn rhugl eu Cymraeg.
- 2) Hyfforddiant Awyr Agored. Mwy o arian i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i hyfforddi a dod yn gyflogedig yn y maes awyr agored. Ar hyn o bryd dim ond tua 5% o weithlu canolfannau awyr agored y Gogledd Orllewin sydd yn siarad Cymraeg.
- 3) Cyfieithu Cymunedol Conwy. Arian i gryfhau gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol Conwy. Bwriad y cynllun hwn yw cynorthwyo hyfforddi'r sector gymunedol a gwirfoddol i allu cynnig gwasanaethau yn ddwyieithog.
- 4) Cynllun Gwreiddiau Conwy – Cynllun fydd yn datblygu rhaglen o gynlluniau diwylliannol a threftadaeth yn y Sir.
- 5) Cynllun yr Hen Ysgol, Llanrwst. Arian i gyflogi swyddog bydd yn mynd ati i ddatblygu adeilad yr Hen Ysgol yn Llanrwst ar gyfer budd y gymuned a'r Gymraeg.

# Cynlluniau Gwireddu Strategaeth

Rhannwyd yr adroddiad yn ôl amcanion Cynllun Strategaethol 08-11

## 1) Prosiect Busnes

Trefnwyd i Adran Sector Preifat BYIG i fabwysiadu sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Busnes.

Ymateb i ymholiadau Busnes gwnâi'r Fenter erbyn hyn.

## 2) Sector Gwirfoddol

Cyfieithu Cymunedol

Eto llwyddwyd i ddenu £13,000 i gyllido'r cynllun gan gronfa y CDG. Mae'r cynllun wedi llwyddo i ddenu gweddill eu hincwm drwy fasnachu.

Mae incwm y cynllun wedi cynyddu'n gyson. Gwelwyd trosiant cyson o dros £5,000 y mis.

Cynhaliwyd 2 gwrs yn ystod y cyfnod yma gyda 8 yn mynychu.

Gadawodd ein prif gyfieithydd (Prif Gyfieithydd Coleg Llandrillo) a chyfieithydd o dan hyfforddiant (cyfieithu i Wasanaeth Llysoedd Caernarfon).

I ymateb i'r colliant cyson yma mae cyfarwyddwyr C.C.C. wedi penderfynu ail stwuthuro'r Cwmni. Yn ogystal a darparu gwasanaeth i'r sector cymunedol bydd y cwmni rŵan hefyd yn cynnig hyfforddiant mewn swydd i rhai digon medrus i fynd ymlaen i weithio fel cyfieithwyr. I neud mae'r cwmni wedi sefydlu strwthur swyddi newydd sef Swyddog Datblygu/Prif Gyfieithydd a Mentor. Yn ychwanegol i hyn bydd hyd at 4 swydd cyfieithydd o dan Hyfforddiant. Cafwyd Glyn Jones (cyn cyfieithydd o dan Hyfforddiant i penodi fel Swyddog datblygu a Dafydd Chilton (cyn Prif cyfieithydd i benodi fel Mentor).

Mae Cyfieithu Cymunedol Conwy wedi ei sefydlu fel Is-gwmni Menter Iaith Conwy efo Cyfarwyddwyr ei hun.

## 3) Y Sector Gyhoeddus

Rydym yn parhau i weithredu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gan Gyngor Sir Conwy. Mae'r cytundeb yn cynnwys elfennau o fonitro cynllun iaith Cyngor Sir Conwy.

## 4) Plant a Phobl Ifanc

*Gweithgareddau efo Ysgolion.* Cafwyd rhaglen o weithgareddau drwy gydweithio efo Ysgolion. Fel canlyniad enillodd MIconwy Cytundeb Lefel Gwasanaeth efo Adran Addysg y Cyngor. Ceir manylion llawn yn yr adroddiadau chwarterol.

*Gweithdai Roc* – Denwyd arian i drefnu cyfres o weithdai roc dros yr Haf ar y cyd gyda'r Urdd a Chymunedau'n Gyntaf Tudno.

Rydym yn parhau i weithio gyda Phrif Athrawon ardal y Glannau i asesu'r angen am ddarpariaeth ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg.

Gigs - cynhaliwyd sawl gig yn ystod y flwyddyn.

Gweithgareddau Awyr Agored.

Clwb Syrffio - Bu cydweithio cyson efo Menter Iaith Môn a Chymunedau yn Gyntaf Aberdaron i gynnal rhaglen o weithgareddau.

Clwb Eirafyrddio - Eto bu cydweithio cyson efo Menter Iaith Môn gynnal rhaglen yn Llandudno a Phlas y Brenin.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol efo Canghennau Lleol CFFI,

Gweithgareddau, Judo, Beicio Mynydd

### **Taith Ieuentid i Batagonia**

Mi fuodd y daith yn llwyddiannus iawn efo 22 o lenctyd y gogledd yn ei fynychu. Golygai hyn cydweithio efo Mentrau eraill y Gogledd a Swyddogion yr Urdd. Mae modd cael adroddiad llawn ar gais ond teimlwn fod y profiad wedi bod o werth maer i'r Ieuentid a staff. I ddyfynnu;

***Elliw (Staff Menter Iaith Conwy)- “Taith gwbl anhygoel, sydd wedi cael dylanwad enfawr ar feddwl criw o bobl ifanc o Gymru ynglŷn a’r Gymraeg. Ers i mi gychwyn gweithio gyda Menter Iaith Conwy yn 2005 dydw i erioed wedi gweld prosiect yn cael effaith mor bositif ar iaith gymdeithasol criw o bobl ifanc. Roeddent i gyd yn methu coelio mai’r Gymraeg oedd yr iaith gyffredin rhyngddyn nhw a pobl ochr arall y byd!”***

Dyma rai dyfyniadau gan y criw:

***Deio ap Gwyndaf ysgol Dyffryn Conwy – “Taith gwbl anhygoel y dylai pob Cymro ei gwneud er mwyn cryfhau eu hunaniaeth”***

Hyfforddiant

Mae modd defnyddio Cronfa CDG Hyfforddiant Awyr Agored i hyfforddi Ieuentid.

Bu Swyddog y Glannau yn mynychu cwrs Gwaith Ieuentid sylfaenol 3.

Mynychodd 7 aelod o CFFI cwrs hyfforddi Arwain Beicio Mynydd

### **5) Gweithgareddau Cymdeithasol**

#### **Cyrsiau Cyfrwng Cymraeg**

Bu cynnydd yn y nifer o gyrsiau Cymraeg a gynhaliwyd yn y sir - trwy gydweithio â Choleg Llandrillo, Elusendai Llanrwst, Prifysgol Bangor ac Ysgol Dyffryn Conwy.

Sbaeneg (Llanrwst), Ffrangeg (Llanrwst), Cyfieithu ar y Pryd (Llanrwst), Cyfieithu Ysgrifenedig (Llanrwst)

#### **Adloniant**

Llwyddwyd i gynnal rhaglen o adloniant trwy'r flwyddyn gan gynnwys mwy o ddigwyddiadau ar y Glannau trwy ein pwyllgorau ardal. Ceir y manylion llawn yn ein hadroddiadau chwarterol.

#### **Llanast Llanrwst**

Eto lwyddwyd i gynnal gŵyl lwyddiannus arall. Adroddiad llawn ar gael.

### **6) Dysgwyr**

Sesiynau Siarad / Sadwrn Siarad



Erbyn hyn cynhelir 7 Sesiwn / Sadwrn Siarad yn fisol, yn y Sir ond mae Menter Iaith Conwy wedi pasio'r cyfrifoldeb ariannu a hyrwyddo i Gymraeg i Oedolion

Lleoliadau:

Abergele, Canolfan Hesketh

Bae Colwyn, Clwb Golff Llandrillo yn Rhos.

Glan Conwy, Y Ganolfan Arddio

Llanfairfechan, Canolfan Cwmni Penllan

Llansannan, Y Llew Coch

Llandudno, Caffi Debanams

Penmaenmawr, Tafarn y Gladstone

Pecyn Croeso - Yn anffodus nid yw cynllun yma yn cael ei weithredu mwyach.

Cymhathu

Golygai llwyddiant cais CDG - Gwersi Cymraeg Niferoedd Isel fod modd i Fenter Iaith Conwy cynnal gwersi niferoedd isel lle mae'r sustem Cymraeg i Oedolion yn methu. Trefnwyd un dosbarth yn Nolwyddelan ac mae diddordeb yn Llanfair Tal Haearn a Dolwyddelan hefyd ond mae diffyg tiwtor yn rhwystro ei redeg.

Yn fwy effeithiol mae Swyddog Ardal Wledig wedi bod yn gweithio efo'r Gronfa a dysgwyr yn yr ardal wledig er mwyn eu gyrru i Nant Gwrtheyrn i neud cyrsiau dwys. Hyd yn hyn mae 70 o unigolion wedi bod. Gwelir cynnydd sylweddol yn ei gallu i ddefnyddio Cymraeg yn gymdeithasol.

## 7) Marchnata

Ceir sylw cyson i'r Fenter Iaith yn y wasg.

Sioeau Sirol

Mae pob sioe yn y sir wedi derbyn gwybodaeth am y Fenter ac rydym yn ymweld â sioeau:

Llanrwst, Eglwysbach. Nid oedd y tywydd yn caniatáu i ni ymweld â Sioe Cerrigydrudion i hyrwyddo gwaith y Fenter.

Cyfarfodydd a Phartneriaid

Sefydlwyd Partneriaeth Sirol i gynorthwyo cydweithio rhwng holl bartneriaid y Bwrdd yn y Sir.

Sefydlwyd Partneriaeth Darparwyr Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg

Mynychwyd nifer o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Mentrau Iaith Cymru (ail-etholwyd Meirion Davies yn Gadeirydd Staff y Mentrau)

## 8) Cynlluniau Penodol

Yr Hen Ysgol, Llanrwst

Arian wedi ei sicrhau drwy'r CDG a CMC Conwy gyflogi Swyddog i ddatblygu'r safle ac mae cytundeb gennym gyda chwmni Pennaf i gydweithio ar gyfer datblygu'r safle. Ein bwriad yw datblygu'r cynlluniau canlynol;

Stiwdio Gymunedol

Oriel a gofod perfformio

Yn ogystal â hyn bydd angen ymgynghoriad pellach gyda'r gymuned.

Mae yna ceisiadau am arian sylweddol wedi ei cyflwyno i ddatblygu'r cynllun ym mhellach;

CFAP £300,000

Cronfa Treftadaeth Loteri £40,000

Mae Cwmni "Yr Hen Ysgol" wedi yn cofrestru fel is-gwmni i Fenter Iaith Conwy mewn amser.

### **Asiantaeth Hyfforddi a Chyflogi Sgiliau Awyr Agored**

I ddatblygu gwaith "Awyr Agored" y Swyddog Gwledig yn bellach a gallu cyflogi Swyddog i ddatblygu Asiantaeth Hyfforddi a Chyflogi Sgiliau Awyr Agored penodol gwnaethpwyd cais i CAE (cronfa Amgen Eryri) er mwyn cynyddu'r cyllid. Roedd y cais yn llwyddiannus a fydd ein Swyddog Gwledig presennol yn symud i weithio yn benodol ar y cynllun yma o fis Ebrill 10.

Fel canlyniad fydd ein Swyddog Treftadaeth yn sicrhau fod yna weithgarwch yn yr ardal Wledig efo'r golwg o newid y swydd i fod yn "Swyddog Ardal Wledig" unwaith bydd arian CDG yn dod i ben (Ebrill 11).

Bydd yr Asiantaeth yn cofrestru fel is-gwmni i Fenter Iaith Conwy mewn amser.

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd dros 50 o siaradwyr Cymraeg drwy gyrsiau cymwysterau awyr agored. Cafwyd tystiolaeth fod 10 wedi cael hyd i waith yn yr ardal oherwydd y cymwysterau yma. Roedd 10 arall wedi gallu codi cymhwysedd o fewn eu swyddi presennol tra bod esiampl o 1 yn symud yn ôl i'r ardal i weithio o Loger ar ôl neud cymhwyster.

### **9) Mentrau Iaith Cymru**

Mae Prif Swyddog MIConwy hefyd yn Gadeirydd pwyllgor staff Mentrau Iaith Cymru ac wedi cynorthwyo i ddatblygu'r cynlluniau canlynol;

**Menter Patagonia.** Llwyddwyd i ddenu cyllid a sefydlu Menter Iaith ym Mhatagonia. Erbyn hyn mae 2 swyddog yn gweithio ar y cynllun yn Y Wladfa.

**Brwydr y Bandiau C2 a Mentrau Iaith Cymru.** Ni chynhaliwyd y cystadlet yn y Gogledd Orllewin oherwydd diffyg bandiau.

**Cyfarfod gyda'r Gweinidog Iaith a Diwylliant.** Bu'r Prif Swyddog a Swyddog Mentrau Iaith Conwy yn cyfarfod â'r gweinidog i lobio yng Nghyd-estyn y mesur iaith newydd, y strategaeth iaith ac am adnoddau i'r Mentrau Iaith.

# I Gloi

Braf yw gweld drwy linio'r adroddiad yma fod nifer o amcanion cynllun strategaethol llynedd wedi ei gwireddu. Mae llwyddiant denu arian Cynllun Datblygu Wledig wedi golygu naid sylweddol ymlaen i Fenter Iaith Conwy yn nhermau adnoddau dynol a chyllid. Ond mae hefyd wedi dod ac anawsterau annisgwyl o ran gweinyddu'r cynllun. Anawsterau sydd tu hwnt i reolaeth y Fenter ac sydd yng nghlwm a sut mae'r cynllun wedi cael ei sefydlu ac yn cael ei weinyddu.

Mae hyn wedi deffro'r Fenter i'r angen am systemau cyllidol effeithiol, ac yr angen i gynllunio systemau o'r fath mewn i unrhyw geisiadau am adnoddau ychwanegol.

Rydym hefyd wedi cyrraedd maint lle mae angen proffesioneiddo amodau staff ac materion iechyd a diogelwch. Bydd hyn yn flaenoriaeth yn y tymor byr.

Fel canlyniad mae'r Fenter wedi penderfynu buddsoddi mewn gwasanaeth i sicrhau a safonau cyfundrefnau amodau gwaith ac iechyd a diogelwch. Rydym hefyd wedi pennu Pwyllgorau Staffio a Chyllid penodol.

Ond ar ôl sicrhau'r ddwy elfen yma a diogelu ein cymhwysedd adnoddau presennol y gallwn feddwl am ddatblygiadau sylweddol newydd.

Credwn ein bod nawr yn cynnal rhaglen o weithgareddau eang ar draws y sir sydd yn cyd-fynd gyda'n hamcanion ac amcanion ein prif noddwyr. Rydym yn awyddus i barhau ac ehangu'r rhaglen yma.

Tu hwynt i hyn mae'r cymhwysedd ac arbenigedd yr ydym wedi magu yn y deg mlynedd diwethaf wedi ein rhoi mewn sefyllfa lle rydym yn gallu dechrau gweithio ar gynlluniau sylweddol. Cynlluniau sydd yn defnyddio syniadaeth "**Datblygu Cymunedol**" gall wirioneddol effeithio ar gynladwyedd y Gymraeg yn y sir a thu hwnt yn y hir dymor.

Meirion LI Davies

(Cyfarwyddwr Datblygu MIConwy)

20/8/10